# Asesiad Risg

**Pwnc:** Ffrydio Byw
**Cyfnod yr asesiad:** Tymor y gwanwyn, 2021
**Asesydd:**
**Pennaeth/DSO yn llofnodi:** **Miss Nia Jones** **Dyddiad: 12.01.2021**
**Cymeradwyaeth y llywodraethwyr** **Dyddiad:**

***Dylid adolygu'r asesiad risg hwn yn rheolaidd a'i ddiweddaru yn ôl y gofyn***

| | | Lefel risg cyn rheoli | | | | Lefel risg ar ôl rheolaeth | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Risg** | **Risg @ Bwy** | **Difrifoldeb** | **Tebygolrwydd** | **Sgôr Risg** | **Rheolaeth Bresennol / Rheolaethau Newydd** | **Difrifoldeb** | **Tebygolrwydd** | **Sgôr Risg** |
| **1. Peidio â chael caniatâd disgybl/rhiant neu ganiatâd staff** | Pawb | 5 | 3 | 15 | • Bydd staff yn cael eu hyfforddi i fod yn hyderus ac yn gyfforddus wrth gyflwyno sesiynau byw<br>• Darperir caniatâd gan rieni ar gyfer plant dan 14 oed, gan gynnwys ar gyfer recordio gwersi.<br>• Lle y bo'n bosibl, dylid sicrhau presenoldeb rhieni gerllaw drwy gydol sesiynau byw<br>• Bydd staff yn sicrhau nad yw recordiadau o'r sesiwn yn gallu cael eu lawrlwytho gan ddisgyblion na'u cyhoeddi | 4 | 1 | 4 |
| **2. Caledwedd/ meddalwedd anghywir yn cael ei ddefnyddio** | Pawb | 4 | 4 | 16 | • Bydd staff ond yn defnyddio dyfeisiau ysgol ar gyfer ffrydio byw<br>• Mae cyfarpar a fenthycir i deuluoedd wedi'i sefydlu'n gywir, h.y. mynediad i sesiynau drwy blatfform Hwb<br>• Dim ond Microsoft Teams/Google Meet y mae staff yn ei defnyddio i gyflwyno'r sesiynau byw. | 4 | 2 | 8 |
| | Pawb | 3 | 5 | 15 | • Bydd athrawon yn defnyddio cefndir proffesiynol wrth gyflwyno eu sgriniau. Wrth ddefnyddio propiau, megis flip charts neu fodelau, dylid | 3 | 3 | 9 |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **3. Golygfeydd a synau anfwriadol** | | | | | defnyddio ystafell addas, nad oes ganddi eitemau personol i'w gweld ac sydd i ffwrdd o ddigwyddiadau neu synau a all darfu.<br>• Bydd staff yn sicrhau bod holl ffenestri a dogfennau porwr diangen ar gau, ac yn gwirio bod tudalennau wedi'u nodi ar borwyr yn briodol.<br>• Bydd aelod arall o staff yn gwirio gosodiad camera athrawon am addasrwydd.<br>• Staff i fod yn wyliadwrus bob amser ar gyfer materion diogelu a allai godi o safbwynt cefndir neu sŵn ac adrodd yn briodol<br>• Bydd staff yn sicrhau bod tarfu posibl yn cael ei leihau, gan<br>○ Tynnu aelodau o'r teulu/anifeiliaid anwes o leoliadau ffrydio<br>○ Peidio ag ateb y drws/galwadau ffôn yn ystod sesiynau<br>• Bydd staff yn dod â sesiwn fyw i'r holl gyfranogwyr i ben os bydd tarfu anochel yn digwydd yn eu cartref.<br>• Bydd disgyblion yn cael gwybod i:<br>○ defnyddio cefndiroedd aneglur neu luniau cefndir fel na welir y tu mewn i gartrefi'r disgyblion.<br>○ defnyddio'r maes gwaith mwyaf priodol i leihau aflonyddwch ond i fod o fewn clyw rhieni/warcheidwaid.<br>○ lleihau ar bethau allai darfu drwy ddiffodd cerddoriaeth, teledu, ffôn, Xbox yn y cefndir ac ati.<br>○ gwisgo'n briodol a thrin gwersi fel yn yr ysgol<br>○ baratoi ar gyfer y sesiwn a cyrraedd ar yr adeg gywir<br>• Hysbysir rhieni/gwarcheidwaid i leihau tarfu yn y cartref tra bod disgyblion yn cymryd rhan mewn sesiynau byw.<br>• Defnyddio clustffonau "dros y glust" i'w hargymell nid rhai clustiau. Efallai y bydd y disgyblion yn gweld defnyddio'r rhain yn ddefnyddiol gydag unrhyw sŵn cefndir yn amgylchedd y cartref (byddai'r defnydd yn briodol i'w hoedran). | | | |
| **4. Gwersi a reolir yn wael** | Pawb | 4 | 4 | 16 | • Bydd staff yn cael eu hyfforddi i fod yn hyderus ac yn gyfforddus gyda defnyddio meddalwedd ffrydio byw<br>• Bydd staff yn defnyddio arferion sefydledig:<br>○ Rhoi gwybod i'r disgyblion am wersi a drefnwyd (drwy’r calendr yn Teams/Google Meet) yn ogystal â'r hyn fydd ei angen yn ystod y sesiwn honno (dogfennau, cyflwyniadau ac ati) | 4 | 2 | 8 |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | ○ Agorwch blatfform TEAMs 5-10 munud cyn i'r sesiwn ddechrau a sicrhau bod yr holl staff yn cael eu cynnwys<br>○ Defnyddir y nodwedd lobi i gadw disgyblion nes bod y sesiwn yn barod i ddechrau<br>○ Gwneud pob disgybl yn 'gyfranogwyr', nid 'perchnogion'<br>○ Trafod rolau a chyfrifoldebau a thiwtorial byr ar y system ar ddechrau pob sesiwn<br>○ Os yw disgyblion yn defnyddio camerâu, bydd gan staff reolaeth dros ddiffodd/analluogi cyfraniad y disgybl, os oes angen.<br>○ Os yw'n ofynnol i ddisgyblion rannu sgriniau, byddant yn cael eu gwneud dros dro yn gyflwynwyr ac yna'n cael eu troi'n ôl i gyfranogwr.<br>○ Datgysylltwch bob disgybl ar yr un pryd pan fydd sesiynau'n dod i ben.<br>○ Rhoi gwybod i uwch dîm rheoli'r ysgol, dysgwyr a rhieni am unrhyw wersi a ganslwyd, newidiadau mewn trefniadau neu faterion a phryderon perthnasol eraill.<br>○ Bod yn ymwybodol o gyfrinachedd; yn enwedig wrth ffrydio gwers yn fyw o leoliad lle mae oedolion neu blant eraill yn bresennol<br>• Ni fydd staff yn gadael sesiwn fyw gyda disgyblion heb oruchwyliaeth ar unrhyw adeg. Yn achos argyfwng, bydd staff yn gorffen sesiynau ar gyfer yr holl gyfranogwyr, oni bai y gall aelod arall o staff sy'n bresennol gymryd rheolaeth.<br>• Os bydd "crash" (problemau caledwedd/meddalwedd rhyngrwyd neu gyfrifiadur):<br>○ Os bydd amser yn caniatáu, gall disgyblion ail-ymuno â'r sesiwn pan gaiff y broblem ei datrys<br>○ Os effeithir ar staff, byddant yn rhoi gwybod am y digwyddiad i uwch arweinwyr/cymorth TG ar unwaith fel y gellir gwarchod neu orffen sesiynau.<br>• Cedwir cofnod o bwy a fynychodd sesiynau<br>• Bydd arweinwyr yn sicrhau bod staff yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am yr holl bolisïau a gweithdrefnau perthnasol, gan gynnwys ymddygiad, diogelwch ar-lein, diogelu a pholisïau diogelu data/GDPR<br>• Os bydd achosion o sesiynau a reolir yn wael yn digwydd, bydd staff yn defnyddio dulliau dysgu o bell eraill nes eu bod yn hyderus ac yn gallu cyflwyno sesiynau byw. | | | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **5. Ymddygiad gwael gan ddisgyblion** | Pawb | 4 | 4 | 16 | • Mae gan staff yr hyfforddiant i ddelio ag achosion o ymddygiad gwael gan ddisgyblion.<br>• Bydd athrawon yn adrodd am achosion o ymddygiad gwael gan ddisgyblion yn unol â pholisi ymddygiad yr ysgol.<br>• Recordir sesiynau gyda'r unig ddiben o ddiogelu disgyblion ac athrawon<br>• Bydd rhiant neu warcheidiad yn bresennol neu'n agos, lle bo hynny'n ymarferol.<br>• Bydd cyfres o reolau ymgysylltu ac ymddygiad yn cael eu rhannu gyda staff, disgyblion a rhieni. Bydd athrawon yn atgoffa disgyblion o'r rhain ar ddechrau'r sesiynau, er enghraifft:<br>  ○ Disgwyliadau ymddygiad (atgoffa'r disgybl bod y sesiwn yn cael ei recordio at ddibenion diogelu a bod angen i riant/gwarcheidwad fod yn agos)<br>  ○ Rhaid i gefndir y disgybl fod yn aneglur neu'n defnyddio llun cefndir.<br>  ○ Dylai'r disgybl fod mewn lleoliad lle mae'n annhebygol o gael ei aflonyddu gan ddigwyddiadau a synau.<br>  ○ Sut i ofyn cwestiynau – trafodaeth agored/chat/llaw i fyny – yn dibynnu ar wers ayyb.<br>  ○ Ni ddylai disgyblion gofnodi na gymryd llun o'u sgriniau<br>  ○ Sancsiynau – bydd sesiynau'n cael eu hatal ar gyfer unigolion neu ddosbarthiadau os caiff rheolau ymddygiad eu torri (e.e., ysgrifennu sylwadau gwirion yn y sgwrs ac ati)<br>• Bydd staff yn cyfyngu ar nodweddion os oes mwy o debygolrwydd o ymddygiad anaddas gyda grwpiau penodol o ddisgyblion neu os yw sesiwn yn un-i-un:<br>  ○ Camerâu i ffwrdd<br>  ○ Mics i ffwrdd<br>  ○ Chat yn unig ayyb.<br>• Bydd staff bob amser yn cadw llygad am les disgyblion ac yn rhoi gwybod am unrhyw bryderon yn unol â pholisi'r ysgol. | 4 | 2 | 8 |
| **6. Camymddygiad** | Pawb | 5 | 2 | 10 | • Mae staff addysgu yn gyfarwydd ag ymddygiad derbyniol yr ysgol (fel arfer yn cael eu cynnwys yn y wybodaeth ddiweddaraf gan ysgol, polisi defnydd derbyniol a/neu bolisi ymddygiad staff) | 5 | 1 | 5 |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | • Atgoffir staff bod polisïau amddiffyn plant yn berthnasol fel y byddent yn yr ystafell ddosbarth<br>• Bydd staff yn cadw at safonau gwisg proffesiynol pan fyddant o flaen y camera<br>• Mae gan ddisgyblion lwybrau adrodd clir ar waith fel y gallant godi unrhyw bryderon tra byddant ar-lein a gwybod sut i gael gafael ar gymorth ymarferol sy'n briodol i'w hoedran<br>• Dylai disgyblion wybod bob amser sut i gysylltu â chymorth bugeiliol neu berson diogelu dynodedig os bydd pryderon yn codi.<br>• Cofnodir sesiynau gyda'r unig ddiben o ddiogelu disgyblion ac athrawon<br>• Bydd rhiant neu warcheidiad yn bresennol neu'n agos, lle bo hynny'n ymarferol.<br>• Mae corff llywodraethu neu'r tîm rheoli yn fodlon bod athrawon yn dilyn eu polisïau diogelu a diogelwch ar y rhyngrwyd.<br>• Bydd yr uwch dîm wedi cymeradwyo unrhyw sesiynau 1-2-1 yn unigol<br>• | | | |
| **7. Sefydliadau Allanol** | Pawb | 4 | 4 | 16 | • Ymdrinnir â gwersi/sesiynau a gyflwynir gan sefydliadau allanol (e.e., gwasanaethau cerddoriaeth, Gyrfa Cymru ac ati) gan ddefnyddio'r un protocolau diogelu a threfnau gwaith ag a bennir gan yr ysgol.<br>• Bydd y pennaeth yn sicrhau bod gan y sefydliad allanol y drefn ddiogelu a gweithio ar gyfer yr ysgolion a bydd yn mynnu bod angen eu dilyn.<br>• Bydd disgyblion a rhieni yn cael gwybod y bydd yr un llwybrau adrodd diogelu yn cael eu defnyddio pan fydd gwersi'n cael eu cyflwyno gan sefydliadau allanol.<br>• Bydd gweithwyr proffesiynol eraill sy'n ymwneud â darparu sesiynau ar-lein gyda dysgwyr a/neu eu teuluoedd wedi cael arweiniad clir gan eu cymdeithasau proffesiynol a/neu gyflogwyr a dylent ddilyn y rhain ar y cyd â'r canllawiau hyn. Bydd y pennaeth yn rhannu'r canllawiau hyn ac yn cytuno arnynt.<br>• Bydd arweinwyr ysgolion yn sicrhau bod staff allanol yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am holl bolisïau a gweithdrefnau perthnasol yr ysgol, gan gynnwys polisïau ymddygiad, diogelwch ar-lein, diogelu a diogelu data/GDPR.<br>• Bydd staff o sefydliad allanol yn rhoi gwybod am bryderon yn unol â pholisi'r ysgol. | 4 | 2 | 8 |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | • Os nad yw sefydliadau allanol yn dilyn protocolau'r ysgol ar gyfer ffrydio byw, bydd sesiynau'n cael eu hatal, a bydd y ddarpariaeth yn dychwelyd i ddarpariaeth anghydamseredig.<br>• | | | |
| **8. Sefydlu Ergonomeg/ Asesiad DSE** | Pawb | 3 | 4 | 12 | • Rhaid i'r holl staff addysgu ymgymryd â'r hyfforddiant ymwybyddiaeth DSE sydd ar gael ar y dolenni isod. Rhaid cynnal yr asesiad DSE yn amgylchedd y cartref a rhaid rhoi gwybod i'w rheolwr llinell neu Bennaeth am ganfyddiadau'r asesiad.<br>○ http://www.swansea.gov.uk/staffnet/displayscreenequipment<br>○ http://www.swansea.gov.uk/staffnet/media/12549/DSE-Display-Screen-Equipment-risk-assessment/doc/DSE_Display_Screen_Equipment_-_risk_assessment.docx<br>○ http://www.swansea.gov.uk/staffnet/media/23874/Asesiad-Cyfarpar-Sgriniau-Arddangos-DSE/doc/Asesiad_Cyfarpar_Sgriniau_Arddangos_DSE.docx<br>• Rhaid i staff sicrhau bod cynllunio'r gwersi dros gyfnod o ddiwrnod yn cynnwys seibiant, gan gefnogi'r staff a'r disgyblion.<br>• Rhaid i ddisgyblion fynd ati i "adael" y wers i gymryd seibiant. Ni ddylai unrhyw ddisgyblion fynd â'u dyfais gyda nhw wrth gymryd seibiant. Bydd angen defnyddio sancsiynau priodol.<br>• Ysgolion i sicrhau bod pob disgybl yn cael cyngor ymarferol a diogelwch ar ergonomeg i leihau symptomau straen ar y cyhyrau a gwella lles. | 3 | 3 | 6 |
| **9. Iechyd meddwl a lles** | Pawb | 3 | 4 | 12 | • Dylai staff fod yn ymwybodol o'r rhai sy'n cael eu graddio yn GOCH gan y gwasanaethau cymdeithasol am fod yn fregus er mwyn sicrhau archwiliadau ystyrlon.<br>• Mae'n hanfodol bod disgyblion a staff yn cael seibiant rheolaidd o'r gwersi byw ac i gynllunio digon o amser ar gyfer egwyl, ymarfer corff a chinio.<br>• Ysgolion i gynnal arolygon staff a disgyblion ar les ac effeithiolrwydd ffrydio byw. Bydd hyn yn llywio unrhyw adolygiad polisi neu asesiad risg.<br>• Cynghorir y pennaeth i sicrhau bod "archwiliadau lles" yn cael eu cynnal gyda'r staff. Gellir dirprwyo hyn i benaethiaid adran neu aelod | 3 | 3 | 6 |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | enwebedig o’r tîm rheoli. Rhaid cynnal "archwiliadau lles" hefyd gyda disgyblion sy'n canolbwyntio ar iechyd, diogelwch a lles.<br>• Lle bo angen, mae cymorth ac arweiniad ar gael gan y gwasanaeth rheoli straen a chwnsela. | | | |

**Dogfennau cyfeirio**

Abertawe - Ffurflen Caniatau Ffrydio Byw
Abertawe - Canllawiau Ffrydio Byw Abertawe
Abertawe - Sut i gynnal sesiwn fyw lwyddiannus
Swansea – Parent/Child Safe Use of ICT Equipment at Home Cymraeg yn cael ei gyhoeddi fory
Canllawiau ffrydio byw Llywodraeth Cymru

| **Cyfrifo Sgôr Risg** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Tebygolrwydd** | | | **Difrifoldeb** | | | **Cyfradd Risg** | |
| Yn fuan | **5** | | Uchel iawn | **5** | | RISG UCHEL | **16 - 25** |
| Tebygol iawn | **4** | | Sylweddol | **4** | | RISG CANOLIG | **11 - 15** |
| Tebygol | **3** | | Canolig | **3** | | RISG ISEL | **6 - 10** |
| Anhebygol | **2** | | Isel | **2** | | DI-NOD | **0 - 5** |
| Pell | **1** | | Di-nod | **1** | | | |